**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy’n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy’n fwy cyfartal – Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

**ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG**

Swyddog Arweiniol: Mari Ropstad

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Sian Nowell

Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau i Oedolion

Dyddiad: 14 Mai 2025

1.a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

| Strategaeth/Cynllun | | Ail-fodelu/Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Swydd |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | | ☐ | √ | √ | ☐ |

1.b) Beth yw enw'r cynnig?
Diwygiad – Mannau parcio ar gyfer pobl anabl

1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.

Cafodd y cynllun Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl presennol ei gyflwyno yn 2004 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny yn 2015 yn dilyn adolygiad. Ers ei gyflwyno mae nifer y bobl sy'n gwneud cais am fan parcio wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 193 wedi dod i law yn ystod y rownd ddiwethaf yn 2022/2023.

Yn hanesyddol, mae 12 o fannau parcio wedi'u dyfarnu bob blwyddyn yn seiliedig ar ymgeiswyr yn bodloni rhai meini prawf cymhwysedd sylfaenol ac asesiad gweithredol wedi'i sgorio gan Therapydd Galwedigaethol/Cynorthwyydd Therapi Galwedigaethol sy'n rhan o'r garfan Addasu ac Offer yn y Gymuned. Ers ei gyflwyno, mae 269 o fannau parcio i bobl anabl wedi'u gosod yn y Fwrdeistref Sirol. O'r rhain, mae 115 wedi cael eu tynnu, gan adael tua 154 o fannau parcio i bobl anabl yn eu lle.

Mae proses Rhondda Cynon Taf ar gyfer darparu Mannau Parcio Unigol ar gyfer Pobl Anabl yn wynebu heriau sylweddol. Mae'r cynllun presennol yn codi ffi ymgeisio o £10 ar bob ymgeisydd nad oes modd ei ad-dalu. Nid oes hawl i apelio, ond mae modd i ymgeiswyr ail-ymgeisio yn ystod y rownd nesaf. Mae Therapyddion Galwedigaethol yn asesu ac yn blaenoriaethu'r ceisiadau hyn, gan arwain yn aml at anfodlonrwydd ymhlith y rhai nad ydyn nhw'n derbyn dyraniad man parcio unigol ar gyfer pobl anabl. Yn ogystal â hyn, mae pryderon y cyhoedd ynghylch y broses ddyrannu yn parhau. Mae'r broses yn cynnwys nid yn unig asesiadau Therapyddion Galwedigaethol ond hefyd cydlynu ag awdurdodau traffig ar gyfer gosod a chynnal a chadw'r mannau parcio. Mae'r cymhlethdod hwn ynghyd â lefel o anfodlonrwydd gan y cyhoedd wedi tynnu sylw at yr angen am adolygiad i archwilio'r potensial i fireinio'r prosesau asesu a chymhwysedd a'r mecanweithiau ehangach sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun dyrannu mannau parcio. Cafodd y cynllun presennol ei atal ym mis Medi 2023 wrth i adolygiad allanol llawn gael ei gynnal o bolisi presennol y Cyngor ar fannau parcio preswyl ar gyfer pobl anabl, er mwyn llywio'r opsiynau sydd ar gael ynghylch darparu mannau parcio preswyl ar gyfer pobl anabl yn y dyfodol.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad gan Practice Solutions, dyddiedig Ionawr 2025, yn argymell y dylai Cyngor Rhondda Cynon Taf barhau i gynnig cynllun mannau parcio ar gyfer pobl anabl gyda pholisi a meini prawf cymhwysedd wedi'u diwygio i fodloni argymhellion yr adolygiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu proses glir a mwy tryloyw i ymgeiswyr.
- Cyflwyno meini prawf a gwybodaeth fwy cadarn sy'n ofynnol i benderfynu ar gymhwysedd er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o gronfeydd cyfyngedig.
- Cyflwyno canllawiau cynhwysfawr sy'n cynnwys camau'r broses, amserlenni a gwybodaeth am waharddiadau traffig ar gyfer yr ymgeisydd.
- Cyflwyno proses sgrinio fwy effeithlon o'r cychwyn cyntaf.
- Cyflwyno system i adolygu defnydd/camddefnydd mannau parcio ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys cael gwared ar fannau nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.
- Ystyried cael gwared ar y ffi ymgeisio a'i disodli â strategaeth codi tâl newydd.
- Darparu rhesymau ysgrifenedig clir dros wrthod man parcio ar gyfer pobl anabl i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Fel y dangosir yn adroddiad Practice Solutions, mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn gweithredu amrywiol fodelau codi tâl gyda'r rhan fwyaf ddim yn codi tâl o gwbl, rhai yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedau gael eu talu'n flynyddol neu ffi weinyddol, a dau

awdurdod lleol yn codi £250 a £689 ar ymgeiswyr llwyddiannus yn y drefn honno. Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd gan Practice Solutions yn amcangyfrif mai £1,159 yr un oedd cost pob man parcio am y 3 blynedd diwethaf y bu’r cynllun ar waith, sy’n cynnwys yr hysbysiadau cyfreithiol, codi arwyddion, marciau ffordd a rheoli traffig, ond nid yw’n cynnwys y costau amser rheoli, asesiadau na’r broses ymgeisio ac felly, yn seiliedig ar y gost o bob adran yn y tabl uchod, gwir gost pob man parcio yw tua £3,474 yr un.

Mae'r llun sgematig sylfaenol o'r model arfaethedig wedi'i gynnwys isod.

**Cyflwyno cais**

- Ar-lein neu wyneb yn wyneb mewn canolfan IBobUn.
- Prawf wedi'i lanlwytho fel tystiolaeth o'r meini prawf cymhwysedd newydd.
- Tâl gweinyddol yn cael ei godi (os caiff hyn ei gyflwyno).

**Gwiriadau cymhwysedd**

- Tystiolaeth yn cael ei gwirio yn erbyn y meini prawf, gan gynnwys cyfyngiadau o ran traffig.
- Ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod, gan gynnwys rhesymau.

**Asesiad gweithredol**

- Therapydd Galwedigaethol/Cynorthwyydd Therapi Galwedigaethol yn cwblhau asesiad yn unol â'r meini prawf sgorio diwygiedig.
- Tystiolaeth feddygol wedi'i chynnwys yn yr asesiad.

**Cymeradwyaeth y panel**

- Panel aml-adrannol yn gwneud penderfyniad terfynol ar ymgeiswyr llwyddiannus.
- Tâl yn cael ei godi ar ymgeiswyr llwyddiannus (os caiff hyn ei gyflwyno).
- Ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod, gan gynnwys rhesymau. Dim hawl i apelio.

**Rheolaeth barhaus**

- Datblygu system ar gyfer ail-gadarnhau gofynion mannau parcio a thynnu sylw at fannau parcio nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio i gael gwared ohonyn nhw.

Dyma'r meini prawf cymhwysedd newydd arfaethedig:

- Rhaid bod gan yr unigolyn Fathodyn Glas parhaol dilys.
- Rhaid bod gan yr unigolyn gar wedi'i gofrestru yn ei gyfeiriad a rhaid i'r ceidwad cofrestredig fyw yno.
- Rhaid bod dim mynediad gan yr unigolyn i barcio oddi ar y ffordd.
- Does dim gwaharddiadau traffig ar y ffordd yn uniongyrchol y tu allan i brif fynedfa'r eiddo a byddai'n ddiogel gosod man parcio ar gyfer pobl anabl.
- Rhaid i'r unigolyn ddarparu tystiolaeth feddygol gan Ymgynghorydd, Nyrs Arbenigol neu Ffisiotherapydd sy'n nodi'n benodol eu hanawsterau sy'n gysylltiedig â symudedd a pharcio.
- Rhaid bod yr unigolyn yn derbyn un o'r budd-daliadau isod:
- Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA).
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel.
- Lwfans Gweini.

Bydd angen i'r unigolion lanlwytho neu ddarparu dogfennau perthnasol i ddangos tystiolaeth o'r meini prawf cymhwysedd, a bydd hyn yn cael ei wirio'n gynnar yn y broses. Yn yr un modd, bydd gwiriadau traffig yn cael eu cwblhau'n gynharach yn y broses cyn cwblhau asesiad gweithredol llawn ar gyfer y sawl sy'n bodloni'r meini prawf ac yn pasio'r gwiriadau traffig.

Bydd yr asesiad gweithredol yn seiliedig ar feini prawf wedi'u sgorio, a fydd yn cael eu hadolygu i ystyried y broses newydd a'r meini prawf cymhwysedd diwygiedig. Bydd y dystiolaeth feddygol sy'n cael ei ddarparu yn llywio ac yn cefnogi'r asesiad. Bydd angen i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chasglu'r dystiolaeth hon gael eu hariannu gan yr unigolion ac ni fydd unrhyw gostau'n cael eu had-dalu gan y cynllun mannau parcio ar gyfer pobl anabl.

Bydd panel yn gwneud y penderfyniad terfynol ar fannau llwyddiannus ac unrhyw ofynion cynllunio a Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i'w dilyn. O'r herwydd, gallai gymryd hyd at 2 flynedd o gyflwyno'r cais cyn i fan parcio ar gyfer pobl anabl gael ei osod.

Bydd y penderfyniad ynghylch codi tâl am y mannau parcio ar gyfer pobl anabl (cyfeiriwch at Adran 8) yn effeithio ar a yw'r mannau parcio'n cael eu gosod drwy Orchymyn Rheoleiddio Traffig at ddefnydd unrhyw berson sydd â Bathodyn Glas, neu fel man parcio i breswylwyr â thrwydded. Bydd hyn yn ei dro yn pennu sut y byddai modd trefnu rheolaeth barhaus y mannau parcio orau, o ran defnydd ac angen parhaus.

Oherwydd natur ddewisol y cynllun a'r anawsterau sy'n gynhenid wrth reoli proses apelio ochr yn ochr â chynllun ymgeisio byw, awgrymir

na ddylid fod hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y panel, fodd bynnag byddai modd i ymgeiswyr gyflwyno cais eto yn ystod y rownd nesaf.

| Opsiwn | Cost i'r ymgeisydd | Buddion | Risgiau |
|---|---|---|---|
| **Dewis 1: Dim tâl** | £0 | • Fforddiadwy i ymgeiswyr.<br>• Does dim angen ystyried mannau parcio â thrwydded yn hytrach na Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.<br>• Osgoi problemau o ran taliadau heb eu gwneud. | • Dim incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun. |
| **Dewis 2: Tâl gweinyddu o £10 ar adeg cyflwyno'r cais.** | £10 i bawb | • Rhywfaint o incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun.<br>• Mae'r ffi yn fforddiadwy.<br>• Mae'r ffi wedi cael ei chodi ers sawl blwyddyn.<br>• Does dim angen ystyried mannau parcio â thrwydded yn hytrach na Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. | • Efallai na fydd pobl yn gwerthfawrogi talu dim ond i gyflwyno cais.<br>• Mae angen prosesu taliadau.<br>• Awgrymodd adolygiad allanol y dylid ailystyried y tâl yma. |
| **Dewis 3: Tâl o 10% o gost gosod y man parcio i ymgeiswyr llwyddiannus** | £115 (ar hyn o bryd) os yn llwyddiannus | • Rhywfaint o incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun.<br>• Byddai tâl canrannol yn symud yn unol â chostau gosod bob blwyddyn.<br>• Gellid disgwyl yn rhesymol y byddai budd-daliadau symudedd sy'n cael eu derbyn (gweler y meini prawf cymhwysedd) yn cael eu defnyddio i dalu'r gost. | • Efallai na fydd yn fforddiadwy i rai.<br>• Byddai angen ystyried man parcio i breswylwyr â thrwydded yn hytrach na Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.<br>• Mae angen prosesu taliadau. |
| **Opsiwn 4 (yr opsiwn a ffefrir): Ffi weinyddol o £10 ar adeg cyflwyno'r cais, ynghyd â thâl o 10% o gost gosod y man parcio i ymgeiswyr llwyddiannus.** | £10 i bawb + £115 (ar hyn o bryd) os yn llwyddiannus | • Rhywfaint o incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun.<br>• Byddai newid mannau parcio i fannau parcio â thrwydded yn gwneud trefnau rheoli barhaus yn haws trwy ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cais arall am drwydded.<br>• Mae'r ffi weinyddol yn fforddiadwy i bawb.<br>• Mae ffi weinyddol wedi cael ei chodi ers sawl blwyddyn. | • Gallai ffi uwch weithredu fel rhwystr i wneud cais, gan effeithio ar gydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.<br>• Efallai na fydd y ffi yn fforddiadwy i rai.<br>• Gallai fod yn anodd sefydlu rhesymeg dros y ffi a godir.<br>• Mae'n debyg y bydd angen i fannau parcio fod yn fannau parcio â thrwydded yn hytrach na mannau parcio ar gyfer pobl anabl at ddefnydd cyffredinol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Efallai na fydd pobl yn gwerthfawrogi talu ddwywaith.<br>• Bydd angen prosesu taliadau.<br>• Awgrymodd adolygiad allanol y dylid ailystyried y tâl gweinyddol. |

**Dyma ddolenni i'r dogfennau:**
insert here

Include fiia version here

**Cynllun ar gyfer Rhoi Gwybod**

Byddwn ni'n rhoi gwybod i bobl am y newidiadau ac yn ymgynghori â nhw drwy arolygon, sesiynau galw heibio, llythyrau a chwestiynau cyffredin.

Byddwn ni'n hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol i annog defnyddio'r Gymraeg drwy gydol hyn.

Byddwn ni'n cynhyrchu deunyddiau mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch fel fformat Hawdd ei Ddarllen, print bras.

Byddwn ni'n dweud wrth unigolion, cynhalwyr, teuluoedd a staff beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud.

**Ymgynghoriad yn y dyfodol**
Cychwyn ymgynghoriad wedi'i dargedu 8 wythnos gan ddechrau ar 16 Mehefin 2025, i geisio barn staff, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill ar y model newydd arfaethedig, gan ganolbwyntio ar ofyn y canlynol i bobl:

- beth sy'n bwysig iddyn nhw o ran y newidiadau, gan gynnwys:
- beth yw eu barn am ein bwriadau
- beth maen nhw angen i ni ddweud wrthyn nhw
- beth dydyn ni ddim wedi meddwl amdano

- Yn dilyn hyn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn yr hydref 2025 yn manylu ar ganlyniad yr ymgynghoriad wedi'i dargedu arfaethedig, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch newidiadau i wasanaethau.

1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Nid oes dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cynllun ar gyfer mannau parcio ar gyfer pobl anabl ac mae'n wasanaeth dewisol. Serch hynny, mae adolygiad allanol a gwblhawyd gan Practice Solutions yn awgrymu y dylid ystyried adran 149 (4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn benodol “effaith diffyg mannau parcio ger cartrefi [pobl anabl] a’u rhyddid i symud a theithio”. Felly, gellid ystyried cynllun Mannau Parcio i Bobl Anabl (DPPB) yn ddyletswydd sector cyhoeddus.

Mae pob man parcio wedi'i osod o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig ac felly mae ganddo ei orchymyn rheoleiddio traffig ei hun, y mae modd ei orfodi gan y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae modd i unrhyw un sydd â Bathodyn Glas ddefnyddio'r mannau parcio.

Mae gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ehangach sy'n llywodraethu ein gwaith, gan gynnwys yn benodol ar gyfer gwasanaethau i oedolion, yn cynnwys:

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi ein cyfrifoldebau a ninnau'n awdurdod lleol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a chynhalwyr di-dâl sydd angen cymorth, ac am drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cymru Iachach, Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 2020.
- Blaenoriaeth Pobl a Chymunedau yng nghynllun corfforaethol y Cyngor i gefnogi trigolion i fyw bywydau annibynnol a boddhaus.

1.e) Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:

- Defnyddwyr Gwasanaeth √
- Gweithwyr √
- Cymuned ehangach √

**ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO – A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?**

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ynghylch sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn o reidrwydd yn negyddol, ond gall effeithio ar grŵp â nodwedd benodol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Oed** (Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn). | Cadarnhaol a Negyddol | Bydd unigolion o bob oed, gan gynnwys unigolion ifainc a'u teuluoedd, yn cael eu dylanwadu gan y cynnig yma. Serch hynny, disgwylir iddo effeithio'n arbennig ar oedolion hŷn, yn enwedig y rhai 50-59 oed, oherwydd y nifer cynyddol o bobl hŷn yn ein poblogaeth. Mae'r cynnydd yma'n tynnu sylw at effeithiau cyffredinol heneiddio ar symudedd ac anabledd, fel y caiff ei grybwyll yn y golofn nesaf.<br><br>Nododd tua thraean o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg a gynhaliwyd gan Practice Solutions eu hoedran, | Ar 20 Mai 2025, mae data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) Rhondda Cynon Taf yn dangos bod 45 o unigolion â mannau parcio gweithredol, gyda'r mwyafrif rhwng 50 a 79 oed.<br><br>Total Clients with Parking Bays: 45<br><br>Age Group – Total<br><18 – 6<br>18-29 – 2<br>30-49 – 4<br>50-59 – 11<br>60-69 – 10<br>70-79 – 10<br>80+ – 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyda 57% o'r rhain yn hŷn 55 oed. Canfu'r arolwg gefnogaeth gref i barhau i gynnig lleoedd parcio (80%).<br><br>**Effeithiau cadarnhaol**<br>Gan fod y cynnig yn egluro ac yn cyflymu'r broses, mae'n debygol y bydd yn cael ei ddeall yn well gan unigolion sy'n ystyried a ddylen nhw wneud cais a'r rhai sy'n cyflwyno cais.<br><br>**Effaith Negyddol**<br>Gan y bydd y rhaglen yn cael ei rheoli ar-lein, efallai y bydd pobl yn y grŵp oedran hŷn sydd â llai o brofiad technegol a hyder mewn system o'r fath.<br><br>I liniaru hyn, byddwn yn cynnig cyfle i bobl wneud eu cais a chyflwyno dogfennau ategol yng Nghanolfannau Un i Bawb yn ein cymunedau.<br><br>Ar nodyn ehangach, mae 9 modiwl Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol ar y Source (hwb dysgu aelodau o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) sy'n ceisio gwella ymwybyddiaeth a chymhwysedd diwylliannol ein gweithlu. Bydd yr hyfforddiant yma'n codi ymwybyddiaeth ac yn galluogi staff i gefnogi pobl â nodweddion | Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf 2043-2030 yn awgrymu erbyn 2030 y bydd cynnydd o 11.7% ym mhoblogaeth y rhai sy'n hŷn na 65 oed (52,884) ac o'r rhain mae 6,573 yn hŷn na 85 oed (cynnydd o 21.5%) – *rhagamcanion poblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol a blwyddyn yn seiliedig ar 2018, StatsCymru*. Mae'r data hanesyddol yma'n awgrymu galw cyson am wasanaethau cymorth o fewn yr ystodau oedran yma, sy'n cyd-fynd â'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth hŷn erbyn 2030 yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Adolygiad o Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl, Adroddiad ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Practice Solutions Ltd, Ionawr 2025.<br><br>Mae'r polisi wedi'i ddylanwadu gan Gynllun Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf 2043-2030 blaenoriaeth 'Pobl a Chymunedau' – diogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwarchodedig yn effeithiol, nid yn unig o ran oedran, ond ar draws yr holl grwpiau a ystyrir yn yr Asesiad Effaith yma. | o bob oed gan ddarparu amddiffyniad, gofal a chefnogaeth pan fyddan nhw ei angen fwyaf er mwyn iddyn nhw wneud y mwyaf o'u potensial.<br><br>Mae Adolygiad cyflym y CPA (2016) o amrywiaeth mewn pobl hŷn yn nodi'r heriau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, yn enwedig o ran lles a mynediad at gefnogaeth gadarnhaol.<br><br>Mae Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Rhondda Cynon Taf (2024-2030) yn cydnabod y byddwn ni'n profi mwy o alw mewn perthynas â phobl hŷn. Mae'r darlun demograffig yma'n cynnwys cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw ag anghenion cymhleth. Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw canolbwyntio ein hymdrech i hwyluso gwasanaethau cydgysylltiedig i bobl a fydd o fudd penodol i bobl ag anghenion cymhleth.<br><br>Data cyfredol unigolion sy'n derbyn gwasanaeth mewn |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>gwasanaethau i oedolion (Grŵp Oedran a Rhyw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru 24/6/24) ar gyfer pob Unigolyn sy'n derbyn Gofal a Chymorth:<br>Age Group and Gender for all Care and Support service users<table><tr><th></th><th>Female</th><th>Male</th></tr><tr><td>18-30</td><td>215</td><td>318</td></tr><tr><td>31-40</td><td>200</td><td>230</td></tr><tr><td>41-50</td><td>197</td><td>202</td></tr><tr><td>51-60</td><td>274</td><td>266</td></tr><tr><td>61-70</td><td>257</td><td>266</td></tr><tr><td>71-80</td><td>470</td><td>345</td></tr><tr><td>81-90</td><td>759</td><td>392</td></tr><tr><td>91+</td><td>366</td><td>85</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>Anabledd<br>(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae'n debygol y bydd y cynnig yma'n effeithio ar oddeutu 10 o unigolion ag anabledd sydd â mannau parcio gweithredol.<br><br><u>Effaith Gadarnhaol</u><br>Mae'r meini prawf diwygiedig, fel a ganlyn, yn egluro'r gofynion meddygol a budd-daliadau gan ei gwneud hi'n haws i bobl asesu eu hamgylchiadau personol cyn gwneud cais:</td><td>Mae Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf yn dynodi bod 23.6% o'r boblogaeth yn Rhondda Cynon Taf yn 2021 wedi'u nodi fel pobl anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.<br><br>Mae <u>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</u> yn nodi ein cyfrifoldebau a ninnau'n awdurdod lleol ar gyfer gwella</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | | • Rhaid bod gan yr unigolion Fathodyn Glas parhaol dilys.<br><br>• Rhaid i'r unigolion ddarparu tystiolaeth feddygol gan Ymgynghorydd, Nyrs Arbenigol neu Ffisiotherapydd sy'n nodi'n benodol eu hanawsterau sy'n gysylltiedig â symudedd a pharcio.<br><br>• Rhaid bod yr unigolyn yn derbyn un o'r budd-daliadau isod:<br><br>- *Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA).*<br>- *Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel.*<br>- *Lwfans Gweini.* | llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a chynhalwyr di-dâl sydd angen cymorth, ac am drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Drwy fynd i'r afael yn rhagweithiol â rhwystrau posibl a sicrhau bod strwythurau cymorth ar waith, mae modd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hyrwyddo mynediad teg a chyfartal at wasanaethau angenrheidiol, gan gefnogi hawliau ac ymreolaeth y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Yn unol â Chynllun Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf 2043-2030 blaenoriaeth 'Pobl a Chymunedau'<br><br>Adolygiad o Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl, Adroddiad ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Practice Solutions Ltd, Ionawr 2025. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | | Mae'r uchod yn ceisio blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf, ac roedd adborth yn codi pryderon ynghylch hyn pan ofynnodd Practice Solutions Ltd am farn ar y dull presennol:<br><br>*Adborth gan staff*<br>*O'r staff a gafodd eu cyfweld yn rhan o'r adolygiad yma, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod cynllun DPPB presennol y Cyngor yn hynod heriol, yn ddwys o ran adnoddau ac nad oedd o reidrwydd yn targedu'r rhai mwyaf anghenus.*<br><br>*Adborth o gyfweliadau dros y ffôn gydag ymgeiswyr llwyddiannus*<br>*Siaradodd ymgeiswyr llwyddiannus a oedd wedi cael DPPB dros y 5 mlynedd diwethaf ac a gafodd eu cyfweld yn rhan o'r adolygiad am y gwahaniaeth enfawr yr oedd man parcio wedi'i wneud i'w bywydau.*<br><br>O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a gynhaliwyd gan Practice Solutions, dywedodd 71% eu bod yn anabl. | Adolygiad o Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl, Adroddiad ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Practice Solutions Ltd, Ionawr 2025. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | Negyddol | *<u>Adborth o gyfweliadau dros y ffôn gydag ymgeiswyr aflwyddiannus</u>*<br>*Er bod y rhan fwyaf wedi dweud bod y staff Therapi Galwedigaethol yn ddefnyddiol iawn, roedden nhw i gyd yn teimlo'n rhwystredig iawn ynghylch y diffyg esboniad/rheswm dros beidio â chaniatáu eu cais. Dywedodd rhai nad oedden nhw erioed wedi derbyn llythyr yn dweud wrthyn nhw am ganlyniad eu cais ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y broses yn annheg a bod angen gwneud y meini prawf cymhwysedd yn gliriach.*<br><br>Gan edrych i'r dyfodol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn anelu at roi strategaethau cyfathrebu clir ar waith ynghylch y broses newydd. Drwy sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac ar gael mewn sawl fformat, bydd unigolion a theuluoedd, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd amrywiol, mewn gwell sefyllfa i ddeall y broses. Gall y dull cynhwysol yma greu amgylchedd cefnogol sy'n hysbysu'r gymuned ehangach ac unigolion ag anableddau am yr heriau a wynebir a'r gefnogaeth sydd ar gael. | https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2023/Is%20Wales%20Fairer%20Equality%20 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Negyddol<br><br>Efallai y codir tâl ar rai pobl am y dystiolaeth feddygol a gyflenwir gan Ymgynghorydd, Nyrs Arbenigol neu Ffisiotherapydd tra gallai eraill ei derbyn yn rhad ac am ddim yn rhan o'u triniaeth barhaus. Mae papur y Cabinet yn nodi na fydd yr Awdurdod Lleol yn ad-dalu nac yn talu unrhyw ffioedd a godir. Gallai hyn gael effaith ariannol negyddol ar grŵp sydd eisoes yn wynebu caledi ariannol. | and%20Human%20Rights%20Monitor-%20Saesneg-%20accessible%20PDF.pdf |
| | Cadarnhaol | Bydd cael y dystiolaeth yma'n dibynnu llawer ar sefyllfa bersonol yr unigolyn. Bydd gan rai pobl, yn enwedig â chyflyrau dirywiol, nyrs arbenigol ynghlwm wrthyn nhw sy'n gweithio gyda nhw yn y tymor hir. Byddai'n bosibl gweld ffisiotherapydd yn breifat i gael y llythyr yma. Gallai ymgynghorydd fod yn anodd oni bai eu bod yn digwydd bod yn gweld un ar y tro.<br><br>Nod y newid yw sicrhau bod y lleoedd cyfyngedig yn cael eu neilltuo i'r bobl sydd fwyaf mewn angen. Mae'r bobl yma'n fwy tebygol o gael perthynas waith agos â'u gweithwyr gofal iechyd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | proffesiynol. Bydd y dystiolaeth hefyd yn ategu'r asesiad swyddogaethol ac yn darparu tystiolaeth feddygol ychwanegol, nad ydym yn ei chasglu ar hyn o bryd, i ddangos tystiolaeth o'r angen am fan parcio.<br><br>Effaith gofyn am dystiolaeth o bosibl fyddai y byddai angen cyfathrebu clir ar bobl fisoedd cyn i'r ffenestr ymgeisio agor er mwyn galluogi cynifer â phosibl i gasglu'r dystiolaeth yma. Y bwriad fydd cynnal cyfnod hyrwyddo tua 3 mis cyn i geisiadau agor er mwyn rhoi digon o amser i bobl drefnu unrhyw apwyntiadau, gofyn i'w gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chynllunio ymlaen llaw yn ariannol os bydd costau'n codi.<br><br>Bydd y rhai sydd â chyflyrau iechyd mwy sylweddol mewn sefyllfa gryfach i wneud cais oherwydd eu cyswllt rheolaidd â'r gweithwyr iechyd proffesiynol yma, a thrwy hynny'n helpu i reoli'r galw am leoedd a nifer yr ymgeiswyr aflwyddiannus. Gall costau fod yn ormodol i rai, ond gan fod budd-daliadau sy'n gysylltiedig â symudedd yn ofyniad i wneud cais, | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gall pobl ddefnyddio cronfeydd o'r fath i dalu'r gost yma.<br><br>Effaith arall fydd cadernid yr asesiadau a bydd y swm cynyddol o dystiolaeth o wahanol ffynonellau yn cryfhau proses gwneud penderfyniadau'r panel ar fannau parcio llwyddiannus. | |
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd)* | Niwtral (Nid yw'n bosibl pennu ar hyn o bryd) | Nid oes gan gyflwyno hyn unrhyw gamau uniongyrchol a fydd yn effeithio ar Ailbennu Rhywedd fel nodwedd. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod ein bod ni'n gweithio gydag unigolion traws ac anneuaidd, a bydd y niferoedd o bosibl yn cynyddu yn y dyfodol, felly byddwn ni'n ystyried ac yn adolygu hyn yn unol â hynny.<br><br>Byddwn ni'n sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad cyfartal at wasanaethau angenrheidiol heb wynebu unrhyw rwystrau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth rhywedd. Bydd monitro parhaus o effaith y polisi yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn deg ac yn gyfartal i bawb. Er nad oes modd i ni bennu'r effaith ar hyn o bryd, byddwn ni'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos ac yn diweddaru asesiadau effaith pan fo angen. | Ledled Rhondda Cynon Taf, yn ôl yr ONS (2021b), mae gan 0.36% o bobl 16 oed a hŷn hunaniaeth ryweddol wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni.<br><br>Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda nifer fach o unigolion traws ac anneuaidd. Ni adroddir ar union niferoedd oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion. (Ffynhonnell: data defnyddwyr gwasanaeth, WCCIS.)<br><br>Bwriad Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Rhondda Cynon Taf 2024-2030 yw cefnogi pobl ag anghenion cymwys, cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn eu bywydau mae hyn yn ychwanegol at sicrhau bod gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ein staff hyfforddiant ac arweinyddiaeth briodol fel bod modd i ni gefnogi pobl yn gadarnhaol, a sicrhau bod ein gwasanaethau a'n gwybodaeth yn hygyrch i bawb. |

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Priodasau a Phartneriaethau Sifil**<br>*(pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Niwtral (Nid yw'n bosibl pennu ar hyn o bryd) | Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y grŵp yma'n cael ei effeithio'n anghymesur gan y newidiadau i'r polisi yma. Serch hynny, bydd hyn yn cael ei fonitro ac os bydd effaith anghymesur/negyddol/anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>*(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)* | Niwtral | Ar hyn o bryd, er nad oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y grŵp yma'n cael ei effeithio'n anghymesur gan gyflwyno'r trefniant newydd, byddwn ni'n parhau i fod yn sensitif i anghenion teuluoedd a allai fod yn rheoli nifer o gyfrifoldebau, gan gynnwys gofalu am blant neu unigolion beichiog.<br><br>Byddwn ni'n darparu cyfathrebu clir ynglŷn â'r newid, gan sicrhau bod pob teulu'n effro i'w dewisiadau ac os bydd effaith anghymesur/negyddol/amrywiol yn codi, bydd anghenion yn cael eu datrys, a bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma'n cael ei ddiweddaru yn unol â hynny. | |

<table>
<tr>
<td>Hil<br>(grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)</td>
<td>Niwtral</td>
<td>Gall teuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ei chael hi'n anodd addasu i'r trefniadau newydd, a allai effeithio'n anghymesur ar leiafrifoedd hiliol sydd yn ystadegol yn fwy tebygol o brofi caledi ariannol. Efallai y bydd anghydraddoldebau hefyd o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r broses ymhlith gwahanol grwpiau hiliol ac economaidd-gymdeithasol gan gynnwys:
<ul>
<li>Mynediad anghyfartal at addysg ac adnoddau</li>
<li>Anghydraddoldebau systemig a rhagfarnau wrth rannu gwybodaeth</li>
<li>Gwahaniaethu hanesyddol yn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth mewn systemau</li>
<li>Rhwystrau iaith a gwahaniaethau diwylliannol</li>
</ul>
Mae'r rhwystrau i'r grŵp yma'n cynnwys gwahaniaethu systemig, gwahaniaethau iaith, a diffyg cynrychiolaeth. Mae modd lliniaru'r rhain drwy weithredu mesurau/polisïau cefnogol sy'n hyrwyddo cynhwysiant, darparu gwasanaethau cymorth iaith, a sicrhau cynrychiolaeth amrywiol mewn gwneud penderfyniadau.</td>
<td>Yn 2021, roedd cyfanswm o 96.7% o drigolion Rhondda Cynon Taf yn wyn yn ôl Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf.<br><br>Ar 20 Mai 2025, mae data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Rhondda Cynon Taf yn dangos bod mwyafrif y rhai sydd â mannau parcio gweithredol yn Wyn Prydeinig:
<table>
<tr><th>Ethnicity</th><th>Total</th></tr>
<tr><td>Any White Background, including Welsh, E</td><td>8</td></tr>
<tr><td>Chinese</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Information not obtained</td><td>6</td></tr>
<tr><td>Not stated (inactive)</td><td>1</td></tr>
<tr><td>White British</td><td>29</td></tr>
</table>
<br>Mae data o gronfa ddata System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn dangos bod unigolion sy'n derbyn gwasanaeth a chynhalwyr yn bennaf yn wyn Prydeinig (80.9%), mae 8.13 yn nodi eu bod yn wyn arall ac 1.02% yn nodi ystod eang o gefndiroedd ethnig. Nid oes gan 9.95% unrhyw gefndir ethnig wedi'i adrodd.<br><br>Mae teuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae modd i'r Cyngor weithio tuag at sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad cyfartal at wasanaethau angenrheidiol, waeth beth fo'u cefndir hiliol neu ethnig.<br><br>Drwy fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r pryderon a nodwyd a gweithredu mesurau cefnogol, mae modd i'r Cyngor weithio tuag at sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad cyfartal at wasanaethau angenrheidiol, waeth beth fo'u cefndir hiliol neu ethnig.<br><br>Bydd yr effaith ar grwpiau penodol yn cael ei monitro ac os bydd effaith anghymesur/negyddol/amrywiol yn codi, bydd anghenion yn cael eu datrys, a bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma'n cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.<br><br>Fel y cyfeiriwyd ato yn yr adran Oedran uchod, mae 9 modiwl Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol yn ceisio gwella ymwybyddiaeth a chymhwysedd diwylliannol ein gweithlu. Bydd yr hyfforddiant yma'n galluogi staff i gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig yn effeithiol. | aml yn wynebu heriau dwysach oherwydd ystod o ffactorau croestoriadol, fel y nodwyd yn adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2021, Gweithredu'r Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd: Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau. Dangosodd fod lleiafrifoedd hiliol yn fwy agored i anawsterau ariannol, sy'n cyfyngu ar eu mynediad at adnoddau hanfodol. Mae data o Lyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf dangos bod y safle cyfartalog ar gyfer mynediad at wasanaethau ar y MALlC ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn 1,105 o 1,909, sy'n awgrymu adnoddau cyfyngedig ac yn gwaethygu eu hanawsterau. Mae categorïau cymdeithasol sy'n gorgyffwrdd, megis hil a dosbarth yn creu systemau cydgysylltiedig o anfantais, gan effeithio ar fynediad at wasanaethau a chyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus.<br><br>Mae adroddiad Llesiant Cymru 2023: Ethnigrwydd a Llesiant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | wedi canfod bod pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn wynebu llawer o anghydraddoldebau gan gynnwys mynediad at adnoddau.<br><br>Yn arbennig, mae adroddiad ADSS (2023) "Darparu Gofal Cymdeithasol mewn Cymru Wrth-Hiliol" yn cyflwyno argymhellion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Mae ein Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Rhondda Cynon Taf 2024-2030 yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yma yn eu cynlluniau gwasanaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer rheoli anghenion cyfathrebu unigolion o leiafrifoedd ethnig yn effeithiol, gan dynnu ar fewnwelediadau gan y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol. |
| **Crefydd neu Gred**<br>*(pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Niwtral (Nid yw'n bosibl pennu ar hyn o bryd) | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd cyflwyno'r newid yma'n effeithio'n anghymesur ar y grŵp yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. | |

<table>
<tr>
<td>Rhyw<br><br>(Menywod a dynion, merched a bechgyn)</td>
<td>Niwtral (Nid yw'n bosibl pennu ar hyn o bryd)</td>
<td>Roedd 66% o'r bobl a ymatebodd i arolwg Practice Solutions yn fenywod, 32% yn wrywod, ac roedd yn well gan 3% beidio â dweud. Canfu'r arolwg gefnogaeth gref i barhau i gynnig mannau parcio (80%). Mae data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn dangos bod mwy o ddynion na menywod â mannau parcio gweithredol yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd cyflwyno'r newid yma'n effeithio'n anghymesur ar y grŵp yma.<br><br>Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.</td>
<td>Roedd yn ymddangos bod cyfran y menywod i'r dynion yn Rhondda Cynon Taf yn gyfartal yn 2021, gan fod Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf wedi cofnodi bod 51.1% o'r trigolion yn fenywod a 48.9% o'r trigolion yn wrywod.<br><br>Data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar Fannau Parcio Gweithredol (Mai 2025):
<table>
<tr><th>Gender</th><th>Total</th></tr>
<tr><td>Female</td><td>18</td></tr>
<tr><td>Male</td><td>27</td></tr>
</table>
<br>Rhyw yn ôl Grŵp Oedran (Rhondda Cynon Taf) fel % o'r boblogaeth o 237,654 o bobl a gwblhaodd gyfrifiad 2021<br>Gwryw: dan 15 oed 19.2%<br>- 16 i 24 oed 11.5%<br>- 25 i 34 oed 12.9.0%<br>- 35 i 49 oed 18.2%<br>- 50 i 64 oed 20.3%<br>- 65 oed a hŷn 18.5%<br>Benyw:<br>dan 15 oed 17.7%<br>16 i 24 oed 10.1%<br>25 i 34 oed 13.1%<br>35 i 49 oed 18.4%<br>50 i 64 oed 20.1%<br>65 oed a hŷn 20.7%</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Adolygiad o Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl, Adroddiad ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Practice Solutions Ltd, Ionawr 2025. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** *(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)* | Niwtral (Nid yw'n bosibl pennu ar hyn o bryd) | Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd cyflwyno'r newid yma'n effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol, gan gynnwys y rhai sy'n uniaethu fel deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol, neu LHDT+.<br><br>Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob unigolyn, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol, fynediad cyfartal at wasanaethau angenrheidiol heb wynebu rhwystrau ychwanegol. Ein cyfrifoldeb ni yw creu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.<br><br>Bydd monitro parhaus o effaith y polisi yma'n hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn deg ac yn gyfartal i bob unigolyn. Os byddwn ni'n nodi unrhyw effeithiau | Yn ôl Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf, yn 2021, nid oedd gwahaniaeth yng nghanran y trigolion a nododd eu bod Syth/Heterorywiol, Hoyw/Lesbiaidd/Deurywiol/Cyfeiriadedd rhywiol arall yn Rhondda Cynon Taf a Chymru gyfan, sef 1.5%. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | anghymesur neu negyddol ar ein hunigolion LHDT+ wrth dderbyn gwasanaeth neu unrhyw grŵp arall, byddwn ni'n cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r anghenion yma. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny i adlewyrchu unrhyw newidiadau angenrheidiol, gan sicrhau nad yw'r newid arfaethedig yn anfantais i unigolion yn anfwriadol yn seiliedig ar eu cyfeiriadedd rhywiol. | |

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog** *(unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | Niwtral | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y grŵp yma o bobl.<br><br>Mae'n cynnwys Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel yn ei feini prawf.<br><br>I'r rhai yng nghymuned y lluoedd arfog a allai fod yn addasu i fywyd sifil, gan gynnwys cael mynediad at wasanaethau a thalu amdanyn nhw, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog / Swyddog Cyn-filwyr pwrpasol i roi cefnogaeth a chyngor i'r grŵp yma o bobl. | Yn ôl llyfrgell ddata Rhondda Cynon Taf, yn 2021 dim ond 4.1% o drigolion Rhondda Cynon Taf sy'n gwasanaethu/wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU. Mae hyn ychydig yn llai na chanran y rhai ledled Cymru sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd/sydd wedi gwasanaethu (4.5% o drigolion).<br><br>Cyfamod y Lluoedd Arfog: adroddiad blynyddol 2022 i 2023 – un o argymhellion y ddogfen yma yw sicrhau bod triniaeth iechyd meddwl i gyn-filwyr yng Nghymru yn diwallu'r angen cyfredol<br><br>Mae Deddf y Lluoedd Arfog 2021 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodedig i roi sylw dyledus i egwyddorion Cyfamod y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Lluoedd Arfog wrth arfer rhai swyddogaethau statudol ym meysydd gofal iechyd, addysg a thai. |
| **Cynhalwyr**<br>*(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Cadarnhaol | Dim ond 3 unigolyn â Mannau Parcio Gweithredol sy'n gynhalwyr.<br><br>Nod y cynnig yw darparu proses symlach gyda mwy o eglurder a chyflymder.<br><br>Gallai'r broses symlach leihau pryderon ynghylch ceisiadau felly gall rhai cynhalwyr gael rhyddhad a sicrwydd gan hyn, yn enwedig os ydyn nhw eisoes yn wynebu straen oherwydd cyfrifoldebau gofalu.<br><br>Mae ffigurau yn y tabl yn dangos bod canran uwch o gynhalwyr yn yr ardal yn fenywod. Mae cyfran uchel yn y grŵp oedran hŷn, sef 51 oed neu'n hŷn.<br><br>Mae dros chwarter o gynhalwyr di-dâl (DU) yn nodi bod gyda nhw anabledd, sy'n uwch na'r boblogaeth nad | Yn ôl Llyfrgell Data Rhondda Cynon Taf, mae 11.1% o boblogaeth Rhondda Cynon Taf yn darparu rhwng 9 a 50+ awr o ofal di-dâl yr wythnos.<br><br>Ar 20 Mai 2025, mae data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Rhondda Cynon Taf yn dangos nad yw 42 o unigolion â mannau parcio gweithredol yn gynhalwyr, tra bod 3 unigolyn yn gynhalwyr.<br><br>Data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2024) - Grŵp Oedran a Rhyw ar gyfer cynhalwyr gyda Chynllun Cymorth i Gynhalwyr: |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>ydyn nhw'n gynhalwyr, ac ar ben hynny mae bron i draean o gynhalwyr yng Nghymru yn nodi bod gyda nhw anabledd.<br><br>Felly, bydd yr effaith gronnus yn cael ei monitro a bydd yr Asesiad o'r Effaith yma'n cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.</td>
<td>
<table>
<tr><th></th><th>Female</th><th>Male</th></tr>
<tr><td>18-30</td><td>2</td><td>2</td></tr>
<tr><td>41-50</td><td>6</td><td>3</td></tr>
<tr><td>51-60</td><td>13</td><td>8</td></tr>
<tr><td>61-70</td><td>17</td><td>7</td></tr>
<tr><td>71-80</td><td>24</td><td>14</td></tr>
<tr><td>81-90</td><td>11</td><td>9</td></tr>
<tr><td>91+</td><td></td><td>1</td></tr>
<tr><td>Total</td><td>73</td><td>44</td></tr>
</table>
Adroddiad Cyflwr Gofalu 2022 / Carers UK. Mae 27% o gynhalwyr di-dâl yn ystyried eu hunain yn anabl.<br><br>Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad 2021, roedd mwy o gynhalwyr di-dâl yng Nghymru yn anabl (29.8%) na phobl nad oedden nhw'n gynhalwyr (21.4%).</td>
</tr>
</table>

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn (Adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Ydych chi'n hapus bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad? Ydw ☒ Nac ydw ☐

Enw: Mari Ropstad

Swydd: Pennaeth Gwasanaeth

Dyddiad: 7 Mai 2025

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.
NODWCH – Mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion.

Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 o Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd Llywodraeth Cymru.

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Yn y pen draw, mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau sy'n agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:


| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel/Tlodi o ran Incwm**<br>*(does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati.)* | Cadarnhaol<br><br><br><br><br><br>Negyddol | Cadarnhaol<br><br>O dan Opsiwn 1, bydd cael gwared ar y ffi weinyddol o £10 o fudd i bawb, gan gynnwys y rhai sydd eisoes yn wynebu heriau yn yr argyfwng costau byw.<br><br>Negyddol<br>Efallai y bydd teuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn ei chael hi'n anodd ariannu'r gost uwch o gais llwyddiannus o dan opsiynau 3 a 4 sy'n ceisio'r tâl gweinyddu o £10 ynghyd â 10% pellach o gost y man parcio, sydd ar hyn o bryd yn 10% = £115)<br><br>Gallai hyn effeithio'n anghymesur ar bobl anabl a'r rhai o grwpiau lleiafrifol hiliol sydd yn ystadegol yn fwy tebygol o brofi caledi ariannol.<br><br>I liniaru hyn, gall darparu gwybodaeth glir helpu teuluoedd i ddeall y cyhuddiadau ar y dechrau. | Rhwng 2019/20 a 2021/22, roedd cyfraddau tlodi cyfartalog Lloegr (22%), Cymru (22%) a'r Alban (21%) wedi cydgyfeirio i tua'r un lefel, - UK Poverty 2024: The essential guide to understanding poverty in the UK \| Sefydliad Joseph Rowntree (jrf.org.uk)<br><br>Yn Rhondda Cynon Taf yn benodol, yn 2023, roedd gan y Fwrdeistref Sirol safle amddifadedd o 3/5 (1 yw'r isaf, 5 yw'r uchaf) yn ôl The geography of destitution 2023 \| Sefydliad Joseph Rowntree (jrf.org.uk).<br><br>Poverty taking a heavy toll on UK's health and NHS services \| The King's Fund (kingsfund.org.uk)<br><br>https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2023/Is%20Wales%20Fairer%20Equality%20and%20Human%20Rights%20Monitor-%20Cymraeg-%20accessible%20PDF.pdf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Monitro rheolaidd o'r nifer sy'n cael eu derbyn a'r nifer sy'n cael eu gollwng i helpu i sicrhau mynediad teg at wasanaethau. | |
| **Cyfoeth Bach a / neu Dim Cynilion** *(digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Negyddol | Effeithiau Negyddol:<br><br>Efallai y bydd y broses newydd yn annog unigolion a theuluoedd i beidio ag ystyried gwneud cais am Fan Parcio ar gyfer Pobl Anabl os cyflwynir y tâl i ymgeiswyr llwyddiannus. Gall hyn effeithio'n anghymesur ar bobl anabl a'r rhai o grwpiau lleiafrifol hiliol sydd yn ystadegol yn fwy tebygol o brofi caledi ariannol.<br><br>Mesurau Lliniarol:<br><br>Gall monitro rheolaidd o nifer y bobl sy'n cael eu derbyn a'r rhai sy'n rhoi'r gorau iddi helpu i sicrhau mynediad teg at wasanaethau. | Mae modd dod o hyd i ddata yn Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf: https://app.powerbi.com/groups/me/reports/aa284455-2774-485b8b54-046ede17b614/ReportSectionc14d042d5d44a55c5193?experience=power-bi<br><br>https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2023/Is%20Wales%20Fairer%20Equality%20and%20Human%20Rights%20Monitor-%20Cymraeg-%20accessible%20PDF.pdf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd Materol**<br>*(methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | Niwtral | | Mae Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf yn nodi bod gan Rondda Cynon Taf safle Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) cyfartalog cyffredinol o 743/1909 (1 yw'r mwyaf amddifad a 1909 yw'r lleiaf amddifad). Y sgôr gyfartalog ar gyfer mynediad at wasanaethau yn benodol ar gyfer Rhondda Cynon Taf gyfan yw 1105/1909. |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd o ran Ardal**<br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | Cadarnhaol<br><br>Negyddol<br><br>Negyddol | Efallai y bydd unigolion a chynhalwyr sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y trefniant diwygiedig naill ai'n gadarnhaol gyda dileu'r tâl gweinyddu o £10 o dan Opsiwn 1 neu'n negyddol pe bai'r tâl yma'n parhau a thâl pellach o 10% / £115 ar hyn o bryd yn cael ei geisio ar gyfer ceisiadau llwyddiannus o dan Opsiynau 3 a 4.<br><br>Gall diffyg Wi-Fi a/neu fand eang dibynadwy ar gyfer y broses ddigidol newydd rwystro cais amserol a didrafferth gan achosi rhwystredigaeth neu bryder i'r person.<br><br>Efallai y bydd gan bobl nad ydyn nhw'n gyfarwydd â thechnoleg amheuon a/neu bryder ynghylch ymddiried mewn rhai ffyrdd o wneud cais am Fan Parcio i Berson Anabl. Gall teithio i Ganolfannau Un i Bawb am gymorth fod yn gostus, yn anaddas ac yn ddigalon | Fel y nodwyd uchod, mae Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf yn nodi bod gan Rondda Cynon Taf safle Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) cyfartalog cyffredinol o 743/1909 (1 yw'r mwyaf amddifad a 1909 yw'r lleiaf amddifad). Ar ben hynny, y sgôr gyfartalog ar gyfer yr amgylchedd ffisegol yn benodol ar gyfer Rhondda Cynon Taf yw 802/1909.<br><br>Mae data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Rhondda Cynon Taf (WCCIS) (Mai 2025) yn dangos lleoliad y 45 o unigolion sydd â mannau parcio ledled Rhondda Cynon Taf: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Er mwyn lliniaru effeithiau o'r fath, byddwn ni'n monitro cwynion ac yn diweddaru Asesiadau Effaith yn unol â hynny. |  |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><th>Location</th><th>Total</th></tr>
<tr><td>Abercynon</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Aberdare</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Beddau</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Brynna</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Cilfynydd</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Cwm Clydach</td><td>3</td></tr>
<tr><td>Ferndale</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Gilfach Goch</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Maerdy</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Mountain Ash</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Penrhiwceiber</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Pentre</td><td>3</td></tr>
<tr><td>Pontypridd</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Porth</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Taffs Well</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Tonypandy</td><td>3</td></tr>
<tr><td>Trallwng</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Trealaw</td><td>5</td></tr>
<tr><td>Treherbert</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Treorchy</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Tylorstown</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Ystrad</td><td>2</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cefndir economaidd-gymdeithasol<br>(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)</td>
<td>Negyddol</td>
<td>Mae'n bosibl y bydd pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol penodol fel y rhai ar incwm isel yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan gyflwyno'r dull newydd.<br><br>Mae llawer o bobl yn dibynnu fwyfwy ar ffonau symudol i gael gwared ar yr angen am gostau rhentu llinell felly gall</td>
<td>Yn ôl Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf, yn 2021 nid oedd 10% o'r trigolion arferol 16 oed a hŷn yn Rhondda Cynon Taf erioed wedi gweithio/yn ddi-waith yn y tymor hir. Mae hyn 1% yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru o 9%. Yn ogystal â hyn, yn 2021 roedd gan Rondda</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | costau ychwanegol godi os gwneir ceisiadau ar-lein trwy dariff amrywiol ar gyfer data.<br><br>Efallai y bydd pobl nad ydyn nhw'n gyfarwydd â thechnoleg yn teimlo bod y ffordd ar-lein o wneud cais y tu hwnt i'w galluoedd neu'n pryderu ynghylch dysgu defnyddio'r system newydd.<br><br>I liniaru hyn, dylid casglu a monitro cwynion a sylwadau i nodi tueddiadau negyddol a'u cywiro. | Cynon Taf ganran uwch o bobl heb gymwysterau 24.2%, o'i gymharu â 19.9% ledled Cymru (Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf). |
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol**<br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd, neu oherwydd eu bod nhw eisoes dan anfantais)* | Negyddol | Gall pobl anabl, hŷn, gan gynnwys cynhalwyr, ac yn enwedig cynhalwyr benywaidd, wynebu effaith negyddol gronnus y newidiadau oherwydd goblygiadau ariannol, mynediad band eang/Wi-Fi i geisiadau ar-lein, a chymryd amser i ffwrdd o gyfrifoldebau gofalu i fynd i'r Ganolfan Un i Bawb os ydych chi'n gwneud cais wyneb yn wyneb.<br><br>I liniaru hyn, dylid casglu a monitro cwynion a sylwadau, gan gydnabod nodweddion gwarchodedig yn unol â hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol, er mwyn nodi tueddiadau negyddol a'u cywiro. | Yn ôl Llyfrgell Ddata Rhondda Cynon Taf, yn 2021 roedd 43.5% o drigolion Rhondda Cynon Taf yn economaidd anactif, sef yr un gyfran ag ledled Cymru. Roedd 7.6% o'r cyfanswm yma yn economaidd anweithredol oherwydd salwch neu anabledd hirdymor, a 5% oherwydd eu bod yn fyfyrwyr llawn amser. Yn nodedig, roedd 23.2% o'r rheini wedi ymddeol, a disgwylir i hyn gynyddu gyda thaflwybr demograffig sy'n heneiddio. |

## ADRAN 4 – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN

Dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei chael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi. **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

Nod y Cyngor yw lleihau unrhyw effeithiau negyddol o'r newidiadau arfaethedig ar unigolion trwy fonitro’n rheolaidd y rhwystrau y mae pobl yr effeithir arnyn nhw gan y newid yma i fynd i’r afael â’r heriau y maen nhw'n eu hwynebu gan gynnwys y rhai sydd â:

- llai o brofiad technegol a hyder mewn system o'r fath.
- Ystyriaethau ariannol a/neu ymarferol gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu, rhwystro mynediad i Ganolfannau Un i Bawb,
- Nodweddion gwarchodedig wedi'u cysylltu'n ystadegol â heriau penodol megis caledi ariannol a brofir gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau anghymesur, negyddol neu andwyol posibl y gallai'r cynnig eu cael ar unigolion ag anableddau, caiff y camau canlynol eu cymryd i leihau neu liniaru'r effeithiau yma:

Hyfforddiant ar gyfer staff: Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant i staff dan sylw i gydnabod anghenion unigryw unigolion ag anableddau. Bydd yr hyfforddiant yma o fudd wrth gynnig cefnogaeth briodol yn ystod y broses.

Cynnal a chadw’r mannau parcio presennol i bobl anabl. Sicrhau bod deiliaid man parcio presennol yn cael sicrwydd y byddan nhw'n cadw eu man parcio presennol ar sail eu cymhwysiad hanesyddol a'u hanghenion cyfredol.

Cyfathrebu Cynhwysol: Sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau ynghylch y taliadau yn glir, yn hygyrch, ac yn cael eu darparu mewn sawl fformat gan gynnwys defnyddio iaith glir i ddarparu ar gyfer unigolion ag anableddau amrywiol.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff:

- Mae Data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Rhondda Cynon Taf (Mai 2025) yn cynnig trosolwg manwl o nodweddion unigolion â mannau parcio yn Rhondda Cynon Taf, gan gwmpasu agweddau fel:
  - Oed
  - Rhywedd
  - Anabledd
  - Iaith
  - Ethnigrwydd
  - Cyfrifoldebau gofal
  - Lleoliad

Mae'r data yma'n rhoi cipolwg cynhwysfawr inni o'r gymuned rydyn ni'n ei gwasanaethu, gan ein galluogi i addasu ein gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol unigolion yn effeithiol.

- Nod yr argymhellion yw sicrhau bod canfyddiadau allweddol yr adolygiad allanol yn cael eu rhoi ar waith gan ystyried yr adnoddau dynol ac ariannol cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor wrth roi'r cynllun yma ar waith.

- Fel y dangosir yn adroddiad Practice Solutions, mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn gweithredu ystod o fodelau codi tâl gyda'r rhan fwyaf ddim yn codi tâl o gwbl, rhai yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedau gael eu talu'n flynyddol neu ffi weinyddol, a dau awdurdod lleol yn codi £250 a £689 ar ymgeiswyr llwyddiannus yn y drefn honno. Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd gan Practice Solutions yn amcangyfrif mai £1,159 yr un oedd cost pob man parcio am y 3 blynedd diwethaf y bu'r cynllun ar waith, sy'n cynnwys yr hysbysiadau cyfreithiol, codi arwyddion, marciau ffordd a rheoli traffig, ond nid yw'n cynnwys y costau amser rheoli, asesiadau na'r broses ymgeisio ac felly, yn seiliedig ar y gost o bob adran yn y tabl uchod, gwir gost pob man parcio yw tua £3,474 yr un. Ystyriwyd Adran 149 (4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn benodol "effaith diffyg mannau parcio ger cartrefi [pobl anabl] a'u rhyddid i symud a theithio". Felly, gellid ystyried cynllun DPPB yn ddyletswydd sector cyhoeddus. Mae pob man parcio wedi'i osod o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig ac felly mae ganddo ei

orchymyn rheoleiddio traffig ei hun, y mae modd ei orfodi gan y Cyngor.

- Effeithlonrwydd Gweinyddol a Dyrannu Adnoddau: Mae'r cynnig yn ceisio symleiddio'r broses weinyddol ac asesiadau Therapi Galwedigaethol i ddiogelu adnoddau ac mae ganddo 4 opsiwn, 3 ohonyn nhw'n cadw'r tâl gweinyddu o £10 a 2 ohonyn nhw'n ceisio cyfraniad o 10% (= £115 ar hyn o bryd) ar gyfer ceisiadau llwyddiannus i gyfrannu at gost y man parcio.

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad annibynnol a hwyluswyd gan Practice Solutions yn hydref / gaeaf 2025.

Cymerodd hyn ffurf trafodaethau gyda Staff, Fforwm Anabledd a Phrosiect Cynhalwyr a chyfweliadau dros y ffôn gydag ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Dyma ddyfyniadau allweddol yn uniongyrchol o'r adroddiad:

*<u>Adborth gan staff</u>*

*O'r staff a gafodd eu cyfweld yn rhan o'r adolygiad yma, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod cynllun DPPB presennol y Cyngor yn hynod heriol, yn ddwys o ran adnoddau ac nad oedd o reidrwydd yn targedu'r rhai mwyaf anghenus.*

*<u>Adborth o gyfarfodydd gyda'r Fforwm Anabledd a'r Prosiect Cynhalwyr</u>*

*Yn rhan o'r adolygiad, gofynnwyd i bobl sy'n mynychu'r Fforwm Anabledd (Cwm Cynon) a'r Prosiect Cynhalwyr roi adborth. Yn anffodus, nid oedd presenoldeb da yn y naill grŵp na'r llall yn ystod yr adolygiad ac felly roedd y drafodaeth yn gyfyngedig, er y darparwyd cyfleoedd pellach i fynegi barn drwy'r arolwg.*

*<u>Adborth o gyfweliadau dros y ffôn gydag ymgeiswyr llwyddiannus</u>*

*Siaradodd ymgeiswyr llwyddiannus a oedd wedi cael DPPB dros y 5 mlynedd diwethaf ac a gafodd eu cyfweld yn rhan o'r adolygiad am y gwahaniaeth enfawr yr oedd man parcio wedi'i wneud i'w bywydau.*

*<u>Adborth o gyfweliadau dros y ffôn gydag ymgeiswyr aflwyddiannus</u>*

*Er bod y rhan fwyaf wedi dweud bod y staff Therapi Galwedigaethol yn ddefnyddiol iawn, roedden nhw i gyd yn teimlo'n rhwystredig*

*iawn ynghylch y diffyg esboniad/rheswm dros beidio â chaniatáu eu cais. Dywedodd rhai nad oedden nhw erioed wedi derbyn llythyr yn dweud wrthyn nhw am ganlyniad eu cais ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y broses yn annheg a bod angen gwneud y meini prawf cymhwysedd yn gliriach.*

Cynhaliwyd arolwg hefyd yn rhan o'r adolygiad a derbyniwyd 314 o ymatebion gan y bobl a ymatebodd:

- Roedd 66% yn fenywod, 32% yn wrywod, roedd 3% yn well gyda nhw beidio â dweud
- Roedd 71% yn anabl
- O'r traean a nododd eu hoedran, roedd 57% yn hŷn na 57 oed
- Roedd gan 53% gyfrifoldebau rhoi gofal
- Roedd 34 yn drigolion a oedd wedi cael eu dyrannu i DPPB
- Roedd 48 yn berthynas, ffrind, partner neu eiriolwr i rywun â DPPB
- Roedd 62 yn drigolion nad oedden nhw wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais
- Nododd y 218 o ymatebwyr sy'n weddill eu bod yn Aelodau o'r Cyhoedd, Staff neu Eraill.

Ceisiwyd barn gan Practice Solutions i lywio'r adolygiad ar:

- Meini prawf
- Cyflwyno cais
- Defnyddio lleoedd ar gyfer deiliaid man parcio
- Dyfodol Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl, yn arbennig, cytunodd 90% y dylai'r Cyngor barhau i gynnig y rhain

4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Economaidd-gymdeithasol Statudol?

Ydw ☐ x Nac ydw ☐

## ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

- Cymhariaeth reolaidd o nifer y ceisiadau a dderbynnir o dan y broses newydd o'i gymharu â'r un flaenorol.
- Casglu adborth gan unigolion, teuluoedd, rheolwyr gofal a staff Un i Bawb ynghylch eu profiad gyda'r broses a'r tâl cysylltiedig.
- Monitro'r rhaniad rhwng ceisiadau digidol ac wyneb yn wyneb
- Casglu cwynion a chynrychiolaeth

5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

Mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei adolygu cyn pen 24 mis ar ôl ei roi ar waith. Mae'r amserlen yma'n caniatáu cyfnod casglu data digonol i asesu effeithiolrwydd ac effaith y cyhuddiad(au).

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Carfan reoli Gwasanaethau i Oedolion sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig, mewn cydweithrediad â staff Priffyrdd ac Un i Bawb. Bydd swyddogion dynodedig yn cael eu neilltuo i oruchwylio'r gwaith o olrhain ceisiadau a goblygiadau ariannol ac adnoddau ehangach y cynnig.

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Bydd canlyniadau'r monitro yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad cynigion yn y dyfodol drwy nodi tueddiadau yn y galw, asesu'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth, a chasglu mewnwelediadau o adborth gan randdeiliaid. Bydd yr wybodaeth yma'n llywio addasiadau posibl i'r broses, ac unrhyw gymorth ychwanegol a allai fod ei angen ar unigolion.

**ADRAN 6 – ADOLYGU**

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn diffiniad y 'Penderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried ystyriaethau amrywiaeth ac economaidd-gymdeithasol lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod.

| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau'r Swyddogion y Panel Adolygu** |
|---|---|---|
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

**ADRAN 6 – CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG**

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith. Dylid cynnwys y crynodeb yma yn adran effaith cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

**ADRAN 7 – AWDURDODI**

Swyddog arweiniol:

Enw: Mari Ropstad

Swydd: Pennaeth Gwasanaeth

Dyddiad: 14 Mai 2025

Rydw i'n argymell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau ☐
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu. ☒
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. ☐

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw: Sian Nowell

Swydd: Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion

Dyddiad: 14 Mai 2025

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.